



FWJLAF 04

## **Cyd-Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint a Wrecsam**

**Cofnodion y Pedwerydd cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Mawrth 5  
Tachwedd 2019 ym Mharc Gwledig Tŷ Mawr, Cefn Mawr,  
Wrecsam**

### **01/19 Presenoldeb ac Ymddiheuriadau**

**Yn bresennol:**

**YSGRIFENNYDD:**

Caroline Selby (CS)

**CADEIRYDD:**

Tim Stratton (TS)

**AELODAU:**

Edwina Hart (EH) – o 10.15am

Mabyn Pickering (MP)

David Collins (DC)

Mike Crawshaw (MC)

John Holiday (JH)

Neville Howell (NH)

Edward Wardle (EW)

**RHAI NAD YDYNT YN AELODAU:**

Tom Woodall (TW) CSFf – tan 12.35pm

Andy Roberts (AR) CSFf – tan 11.30am

Adrian Walters (AW) CSFf – tan 11.30am

**Ymddiheuriadau:**

Hannah Arndt

Pene Coles

Rachel Lewis

David Evans

Martin Howorth

Bill Stephens

Croesawodd TS bawb i'r cyfarfod a hysbysodd y cyfarfod am farwolaeth drist Nicola Holmwood. Mynegodd aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol eu diolch am yr holl waith roedd Nicola wedi ei wneud o ran Hawliau Tramwy yn Wrecsam.

Yna cyflwynodd bawb eu hunain gan fod Andy Roberts, Rheolwr Gwasanaeth dros Strategaeth Gynllunio CSFf ac Adrian Walters, Arweinydd Tîm Adain Bolisi CSFf yn mynychu'r cyfarfod.

## **02/19 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2019**

P6 07/19 dylid gwylio mynediad ar ffordd yr A494 – NH ddywedodd hyn nid MP.

Gyda'r cywiriad hwn, cynigiwyd y cofnodion gan David Collins, a chawsant eu heilio gan Edward Wardle, a chytunwyd arnynt fel cofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

## **03/19 Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint**

Rhoddodd AR a AW gyflwyniad ar CDLI drafft Sir y Fflint 2015 – 30, a chafodd copïau eu cylchredeg. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 11 Tachwedd 2019.

Eglurodd AR fod y Cynllun drafft wedi bod ar y gweill ers 4 blynedd ac unwaith y byddai'n cael ei fabwysiadu y bydd y CDLI yn disodli'r Cynllun Datblygu Unedol presennol.

Mae'r cyfnod craffu mewn dwy ran gydag ymgynghoriad cyhoeddus. Unwaith y bydd y sylwadau yn cael eu hystyried bydd yn cael ei anfon at Lywodraeth Cymru i'w archwilio.

Mae angen i'r Cynllun fod yn un pwrpasol ac yn un y mae modd ei gyflawni.

Arweiniodd AW y cyfarfod drwy Gludiant a Hygyrchedd, gan gynnwys cyfeirio at bolisïau perthnasol.

MC – mae ffermwyr yn derbyn sawl ergyd o ran y bai am y newid yn yr hinsawdd gan fod gwybodaeth pobl yn ddiffygiol iawn ac mae angen addysgu.

TS – Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol 2020 – 2040 – sut mae'r CDLI yn cydfynd â hyn?

AR - papur Llywodraeth Cymru ydyw sydd â chyfnod ymgynghori byr ac mae'n ymgorffori polisïau eraill. Ni ellir gweld y darlun ehangach bob amser.

MC – dydw i ddim yn gwybod a yw Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr neu Undeb Amaethwyr Cymru wedi cyflwyno ymatebion.

MP - mae rheilffyrdd nad ydynt yn cael eu defnyddio weithiau ar dir preifat.

AW - yn edrych i weld sut neu os y gall y rhain gael eu hymgorffori.

JH – rhoddodd ddarlun o lein reilffordd o'r Wyddgrug i Fwcle nad yw'n cael ei defnyddio.

AW – edrychir ar opsiynau eraill bob amser.

AW - Mae priffyrdd yn dechrau canolbwyntio ar Deithio Llesol.

TS - yn ymwneud ag ymagwedd Cynllunio tuag at gludiant a theithio llesol – prif rôl y Fforwm Mynediad Lleol yw mynediad at hamdden nid mynediad yn ymwneud â chyflogaeth. Yn Wrecsam cafodd rheilffyrdd nad oeddent yn cael eu defnyddio mwyach eu nodi ar gyfer cludiant e.e. beicio ond roeddwn yn gallu sicrhau fod hamdden yn cael ei gynnwys hefyd. Mae yna dybiaeth fod llwybr teithio llesol hefyd ar gyfer dibenion hamdden, felly nid yw hamdden yn bolisi penodol.

Mae'r term, Seilwaith Gwyrdd, yn ddigon annelwig i roi problemau tebyg i'r rhai a roddir i hamdden. Ni ystyrir y safbwynt iechyd bob amser fel pwynt ar wahân.

JH - Mae Llywodraeth Cymru yn annog iechyd ond nid oes yna unrhyw feddylfryd ar y cyd.

AR - fe ddaw'r pwyslais gan Lywodraeth Cymru. Mae Asesiad Seilwaith Gwyrdd wedi ei wneud.

NH - mae diogelu ffyrdd ar fapiau ond nid hawliau tramwy.

AR - mae'n rhaid amddiffyn y llwybrau hyn ac mae yna fap Hawliau Tramwy ac felly nid oes angen dyblygu. Mae angen cynnwys cyfiawnhad ar fap. Mae manau gwyrdd wedi eu hehangu.

NH – tir Mynediad Agored?

AR - wedi ei ddiffinio gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae yna ddeddfwriaeth yn ymwneud â Mynediad Agored.

MC – caiff Mynediad Agored ar fynyddoedd ei gynnwys ond nid yw mynediad yn ddewis ond mae'n parhau i gael ei gynnwys.

AR – awgrymu na ellir dangos Hawliau Tramwy newydd gan y byddai'n codi disgwyliadau heb gyfiawnhad.

DC - nid yw'n ymddangos y cyfeirir at y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

**TW**

AR - bydd hyn yn cael ei wirio er bod staff Hawliau Tramwy wedi eu cynnwys.

DC - rhaid ystyried hawliau tramwy ar ddatblygiadau newydd.

AR - cynigodd fod datblygiadau newydd yn cael eu cynnwys yn y CDLI a bydd hawliau tramwy hefyd yn cael eu cynnwys.

TS - y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy i nodi lle gellir ychwanegu Hawliau Tramwy newydd.

AR - mae gan y Polisi Seilwaith Gwyrdd flaenoriaeth uchel a gall yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd fwydo i mewn i hyn. Mae'n waith sy'n mynd rhagddo.

TS - fy ngobaith yw y bydd y Cynllun Seilwaith Gwyrdd yn cynnig cyfle i gael cynllun integredig gydag amryw o grwpiau sydd â diddordeb mewn mynediad, manteision i iechyd ayb. Mae Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus wedi eu sefydlu i gynnwys y rhain.

AR - fe fyddaf yn mynd â'r holl sylwadau a phwyntiau yn ôl i'w bwydo i bolisiau a chynlluniau.

TS - ynglŷn â datblygiadau tai mawr. 12 -18 mis yn ôl fe nododd Fforwm Busnes Wrecsam goridorau gwyrdd y gellid eu cynnwys o safbwynt iechyd a lles, ond nid yw datblygwyr tai bob amser yn manteisio ar hyn. Llwybrau a safon llwybrau – Coridor Gwyrdd – defnydd – mae'r gost yn isel i'r datblygwyr os yw hynny'n hysbys yn gynnar.

AR - mae hyn yn gywir ond mae angen briff datblygu yn ymwneud â pha ofynion sydd yna o ran Seilwaith Gwyrdd cyn i unrhyw waith ddechrau. Mae llawer o waith wedi ei wneud ar y cyd gan CBSW a CSFf a gellir gwneud mwy o waith yn ymwneud â Chanllawiau Cynllunio Atodol.

JH – angen defnyddio arbenigedd grwpiau fel y Fforwm Mynediad Lleol, Cerddwyr, Sustrans ayb.

AR - i'w wneud fel darn unigol o waith.

TS - mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn Wrecsam yn bytiog ac wedi dyddio. Byddai angen i Ganllawiau Cynllunio Atodol Seilwaith Gwyrdd, fel y sonnir amdanynt heddiw, fod ym mhwynt cywir y cylch cynllunio. Cyfeiriodd at ddatblygiad Brymbo fel enghraifft. Mae yna angen i gael pethau'n iawn ar y dechrau.

AR - mantais gweithio gyda grwpiau fel y Fforwm Mynediad Lleol yw ei fod yn cryfhau'r sefyllfa os/pan fo datblygwyr yn gwrthwynebu. Rwy'n awyddus i siarad â chydweithwyr yn Wrecsam ynglŷn â'r Canllawiau Cynllunio Atodol a gwneud cynnig yn ymwneud â chydweithio a gweithio cynhwysol. **TW**

EH - angen Seilwaith Gwyrdd cyn i ddatblygiadau ddechrau. Mae angen i Hawliau Tramwy newydd fod yn rhwystrol er mwyn atal y defnydd gan gerbydau moduraidd.

AR - angen cynnwys y bobl iawn yn y broses.

MP - mae yna dri datblygiad mawr yn fy ardal sydd â hawliau tramwy. Angen gwybod am hyn flynyddoedd ymlaen llaw er mwyn diogelu hawliau tramwy presennol gan y gall y rhain gael eu colli weithiau.

AR - hygyrchedd, cysylltedd, rhaid diogelu hawliau tramwy yn gynnar. Gellir cysylltu'r rhain â'r Canllawiau Cynllunio Atodol a briffiau datblygu – Coridor Gwyrdd.

NH - angen dogfen yn nodi llwybrau teithio llesol presennol a cham dau - i ddangos y llwybrau teithio llesol a ddymunir.

AW – mae'r rhain ar y mapiau ar y wefan.

JH – mae'r raddfa yn rhy fach ac angen bod yn fwy gan nad oes posibil ei ddarllen ar hyn o bryd.

AR - fe fydda i'n bwydo hyn yn ôl ac fe fydda i'n holi a oes gan Wrecsam fap o'r llwybrau a ddymunir. **TW**

TS – angen symud y meddylfryd yn ymwneud â'r holl ddatblygiadau y dylai'r pwynt diofyn fod yn rhwystrol.

AR - mae yna angen i siarad gyda Hawliau Tramwy a'r Fforwm Mynediad Lleol yn ymwneud â gofynion ar yr holl ddatblygiadau.

TS – A483 a'r A494 – beth yw'r cysylltiad gyda'r Asiantaeth Cefnffyrdd?

AR – rhanddeiliaid ac ymgylgoreion.

TS – presenoldeb mewn ymgynghoriadau yn ymwneud â'r cynigion. Sut y gall ffordd gael ei hisraddio? Fyddai hyn yn cynnwys Cynllunwyr a'r Asiantaeth Cefnffyrdd?

Ar a AW – ddim yn gwybod. Byddai angen mynediad newydd i safle Teithwyr a byddai'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac felly mae hynny yn gydweithio.

DC - a allai peth arian gael ei ddefnyddio i ariannu defnydd nad yw'n ymwneud â moduron.

AR – mae yna lwybrau y dyhëir amdanynt yn yr hirdymor a'r tymor canolig. Caiff cynlluniau a strategaethau eu croes gyfeirio ac fe'u hystyriir.

EH - ymholiadau yn ymwneud ag ariannu canfod safleoedd Teithwyr a Sipsiwn.

AR - a yw'n ofniad cyfreithiol ac os nad yw'n gywir yna gall Cynllun gael ei wrthod gan Lywodraeth Cymru.

TS – bydd AR yn mynd â'r camau gweithredu yn eu blaen a TW yw'r un fydd yn gweithredu gan mai ef yw'r cyswllt.

JH – Mae gan NCN5 botensial o ran twristiaeth ond mae angen ei ddefnyddio gan fod Sir y Fflint ar hyn o bryd yn cael ei weld fel rhywle i deithio trwyddo ac nid fel cyrchfan.

AR – mae ardaloedd o ansawdd yn y Cynllun er bod twristiaeth yn gyfyngedig o ganlyniad i gyllid. Dim ond un swyddog sydd o ran Twristiaeth ac felly diffyg cyllid ydyw yn hytrach na pharodrwydd.

TS - beth am Ddiwygiadau Mynediad Llywodraeth Cymru?

AW – Dydw i ddim yn gyfarwydd gyda'r rhain.

TW - Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn gweithio drwy brosesau'r diwygiadau mynediad drwy grŵp llywio sydd newydd ddod ynghyd.

AR – hyd nes ei fod wedi ei ddiffinio a'i gyflawni yna ni ellir ei ystyried.

AR - rhaid i'r holl sylwadau yn ymwneud â'r Cynllun Datblygu Lleol fod wedi eu derbyn erbyn 5pm ar 11 Tachwedd 2019. Mae angen i'r sylwadau gael eu gwneud drwy gwblhau'r ffurflen ar-lein un ai fel Fforwm Mynediad Lleol neu fel unigolion.

Diolchwyd i AR a AW am fynychu'r cyfarfod, am y copïau o'r Cynllun drafft ac am y cyflwyniadau a'r esboniadau.

Gadawodd AR ac AW y cyfarfod ar y pwynt hwn.

TS – mae yna angen i gofnodi'r diffyg presenoldeb gan adran Hawliau Tramwy Wrecsam yn y cyfarfod hwn. Nid oedd yr Adran Briffyrdd yn bresennol yn y cyfarfod ymgynghori yn ymwneud â chefnffordd yr A483 ym Mae Colwyn ond roedd Sean Hanratty (Hawliau Tramwy) yn bresennol. Mae toriadau pellach i'r gyllideb wedi eu cynnig i'r adran Hawliau Tramwy felly rwy'n awgrymu fod llythyr yn cael ei anfon i'r Prif Swyddog Gweithredol. Mae'r Fforwm Mynediad Lleol yn ymgynghorai statudol.

Llythyr ffurfiol i'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Cynghorydd David Bithell yn egluro fod y Fforwm Mynediad Lleol yn pryderu am y diffyg adnoddau ar gyfer Hawliau Tramwy.

TS - beth sy'n digwydd i geisiadau yn ymwneud â'r Gorchymyn Addasu Map Swyddogol os yw'r ymgeisydd yn marw?

TW – mae'n bosib nad eir ymlaen â hwy os mai dim ond i'r ymgeisydd hwnnw maent yn berthnasol. Fe all tystiolaeth gael ei cholli ac mae yna ôl-groniad o ganlyniad i ddiffyg adnoddau.

DC - mae yna sibrydion y gall contractwyr preifat ddod yn gyfrifol am reoli / rhedeg Parciau Gwledig yn Wrecsam.

EH – Mae Trail Riders wedi gwneud cais am fynediad i Hawliau Tramwy yn Nyffryn Glyn Ceiriog.

DC – Dydw i ddim wedi clywed am hyn er y gellir gwneud apeliadau i'r Arolygiaeth Gynllunio.

Yna fe fu trafodaeth yn ymwneud â difrod i'r ardaloedd a'r tir yn ac o amgylch Dyffryn Glyn Ceiriog a'r tramwywyr.

Bydd TS yn cysylltu ag aelodau eraill y Fforwm Mynediad Lleol ac yna bydd yn drafftio ac yn anfon llythyr i'r Prif Swyddog Gweithredol, CBSW a'r Cynghorydd David Bithell, CBSW.

**TS**

TS - mae yna broblemau gyda gathiau ceffylau sydd wedi eu gosod mewn rhai lleoedd gan na ellir marchogaeth trwyddynt.

DC – angen codi'r pwynt am safon y gwaith a gaiff ei wneud gan contractwyr.

JH – angen ymgynghori gyda'r rhai sydd â'r arbenigedd angenrheidiol.

## **04/19 Materion yn Codi o Gyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2019**

- a) P2 03/19 a Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gogledd Cymru i ymuno â'r Fforwm Mynediad Lleol fel dewis ar y cyd. TW i gysylltu yn ymwneud â phenodi. **TW**
- b) P2 03/19 b Mae TW wedi siarad â Strydwedd ac fe ymchwilir i hyn. Eitem barhaus.
- c) P2 03/19 e Mae gan TW gyswllt yn yr Asiantaeth Gefnffyrdd. Cyfarfod nesaf yn Wrecsam yn 2020.
- d) P3 03/19 TS i fod y cyswllt yn hytrach na LS. **TS**
- e) P3 03/19 f Fe drafododd TW a MH hyn. Bydd y Cynlluniau Cyflenwi Blynyddol yn cael eu rhoi gerbron y Fforwm Mynediad Lleol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol ac adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. **MH a TW**

- f) P4 04/19 Dywedodd MC fod yna broblem gyda phobl yn deall arwyddion.
- g) P4 05/19 Anfonodd CS ddolenni i Gynllun Gwella Hawliau Tramwy Wreccsam.
- h) P5 05/19 Mae gwaith wedi mynd yn ei flaen ar y Parc Bywyd Gwylt gyda chyllid gan Toyota a'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt. Y bwriad yw y bydd yn lle y gall pobl ymweld ag ef.
- i) P5 06/19 Anfonodd CS y ddolen i'r fideo.
- j) P7 08/19 a Anfonodd EH wybodaeth i TS a hysbysodd y Fforymau Mynediad Lleol eraill yng nghyfarfod Cadeiryddion y Fforymau Mynediad Lleol.
- k) P7 08/19 b Anfonodd CS y wybodaeth i aelodau. Dywedodd NH nad yw'r ffordd yn hygyrch ac eithrio drwy ddefnyddio ymylon gan fod y ffordd yn un ddeuol ac mae yna rwystr yng nghanol y ffordd. Dywedodd Aelodau fod angen mwy o wybodaeth a bod angen i'r Fforwm Mynediad Lleol fod yn rhan o bethau yn llawer cynharach.

JH – mae pobl sy'n defnyddio beiciau modur trydan yn dod yn broblem gynyddol.

NH - rwy'n awgrymu y dylid gwahodd yr adran Briffyrdd o CBSW a CSFf i egluro'r gwaith o gynnal a chadw priffyrdd, lonydd bach, palmentydd ayb a mynediad heb foduron ar ffyrdd.

### **Eitem ar gyfer y rhaglen yn y dyfodol**

## **05/19 Ymgynghoriad ar Ddiwygiadau Mynediad Llywodraeth Cymru**

Mae papur wedi ei gylchredeg i aelodau cyn y cyfarfod a rhoddodd DC gyflwyniad byr.

Mae hwn yn fframwaith cyfreithiol y bydd pawb yn gweithio o'i fewn ymhen rhai blynyddoedd. Roedd yna ymgynghoriadau yn 2015 a 2017 a greodd lawer o ymateb. Mae'r cynigion allan erbyn hyn yn 2019.

Dargyfeiriadau ac Addasiadau - fe all amser gael ei leihau a gall fod yn haws deddfu.

Rôl y Fforymau Mynediad Lleol – mae hwn dal yn agored ar hyn o bryd, ond fe all y rôl gael ei datblygu a dylai gynnwys Teithio Llesol.

Sefydlu llwybrau aml ddefnydd.

Creu hawliau tramwy cyhoeddus newydd. Mae ffyrdd beicio a llwybr beicio yn wahanol. Ffordd feicio - rhan o rwydwaith y ffyrdd.

TS - manteision Map Swyddogol?

TW – fe fyddai yna fanteision a bydd yn gyfnewidiol drwy amser a bydd yn newid.

JH – eglurhad ynglŷn â dŵr mewndirol

TW - nid oes yna gonsensws o ran y defnydd o afon rhwng y frawdoliaeth bysgota a defnyddwyr canŵau. Mae'n llawer rhy anodd i'w ddatrys ar hyn o bryd.

TS - cyfarfod y Fforwm Mynediad Cenedlaethol heddiw yn benodol ynglŷn â'r mater hwn.

MP – fe ddaeth dau gynrychiolydd o faes pysgota i gyfarfod y Fforwm Mynediad Lleol, roeddent yn ddiddorol iawn ac yn rhoi llawer o wybodaeth. CS i anfon y cofnodion i JH.

**CS**

DC - gwybodaeth yn ymwneud â llinell amser ddangosol – aros i glywed am y grwpiau arbenigol a'r aelodaeth o grwpiau o'r fath. Dim ond i Gymru mae hyn yn berthnasol.

TS - os oes yna unrhyw ymatebion neu wybodaeth yna ewch ati i gylchredeg y rhain yn hytrach nag aros am y cyfarfod nesaf.

**PAWB**

Gadawodd TW y cyfarfod ar y pwynt hwn.

## **06/19 Unrhyw Fater Arall**

- a) DC – ymgynghoriad yr A483 – mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn ymgynghori gydag amrywiaeth o bobl i nodi'r blaenoriaethau ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd yr ymgynghoriad nesaf ar 28 Tachwedd 2019 yn Nhŷ Pawb.
- b) Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (gweler tudalen 2) – roedd TS a DC yn bresennol yn yr ymgynghoriad.
- c) Cyfarfod Cadeiryddion y Fforymau Mynediad Lleol – trafodwyd cynigion yn ymwneud â mynediad.
- d) EW – y Moss. O ganlyniad i'r tywydd gwlyb mae'r traciau a ddefnyddiwyd gan grwpiau amrywiol mewn cyflwr gwael iawn ar hyn o bryd.  
TS – bydd unrhyw symudiad / cynnydd yn dymhorol.
- e) DC – a ddylai'r Fforwm Mynediad Lleol wneud cais i ddod yn aelodau o Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Wreccsam. I'w drafod yn y cyfarfod nesaf.
- f) NH - a fyddai'n ddefnyddiol i gwrdd mewn mannau eraill a gwahodd y Cynghorau Cymuned i fynychu?  
TS – fe allai fod yna broblemau yn ymwneud â chyfyngiadau o ran y gyllideb. Os oes gan Gynghorau Cymuned ddiddordeb pwrpasol o ran



Hawliau Tramwy yna a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn gweithio gyda'i gilydd?

**07/19 Dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod nesaf**

Yn Sir y Fflint yn nechrau 2020.